

# CARIAD SY'N DYNODI'R GYNULLEIDFA WIR GRISTIONOGOL

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch y brodyr i ddeall mai cariad, nid perffeithrwydd, sy'n dynodi'r gynulleidfa wir Gristionogol. Dangoswch gan ein bod ni oll yn amherffaith, fod hyd yn oed brodyr cyfrifol yn gwneud camgymeriadau a bod angen maddau iddynt a dangos cariad. Anogwch bawb yn gynnes i arddangos y 'cariad at ei gilydd sy'n llawn angerdd'—y math o gariad sy'n "dileu lliaws o bechodau."—1Pedr 4:8

## **CARIAD YW NOD ADNABOD Y GYNULLEIDFA WIR GRISTIONOGOL (3 mun.)**

'Ddylem ni ddisgwyl i holl aelodau'r gynulleidfa i fod yn berffaith?

'Oedd yr apostolion a'r Cristionogion cynnar yn berffaith?

'Ydi hi'n wir bosib' i unrhyw un ohonom ni i fod yn berffaith heddiw?

Cariad, nid perffeithrwydd, yw nod adnabod y gynulleidfa wir Gristionogol (In 13:34, 35)

Ond mae rhai yn cymysgu rhwng cariad a pherffeithrwydd, yn disgwyl gormod oddi wrth eraill

Maen' nhw'n defnyddio amherffeithrwydd eraill fel esgus i gael eu tramgwyddo (*w88 8/15 29-30*)

'Ydych chi'n disgwyl perffeithrwydd gan eraill? Beth ddylech chi ddisgwyl ei weld yn y gynulleidfa Gristionogol? (Rhuf 14:4; *w77 714*)

## **PAM MAI CARIAD YW NOD ADNABOD AMLYCAF GWIR GRISTIONOGION (5 mun.)**

'Roedd cariad, y "ffordd ragorach fyth," yn bwysicach na doniau arbennig yr ysbryd oedd gan Gristionogion y ganrif gyntaf (1Cor 12:31; *w78 9/15 17-18*)

Mae cariad yn fwy na ffydd a gobaith hyd yn oed (1Cor 13:13)

Mae cariad yn crynhoi'r holl Gyfraith (Rhuf 13:9, 10; *w90 11/15 14-15*)

Fe atgoffodd Paul y Cristionogion eu bod mewn dyled i garu ei gilydd (Rhuf 13:8; 1In 4:11)

Gan mai cariad yw nod adnabod y wir gynulleidfa, mae angen inni ddysgu sut i gymhwyso cariad wrth ymateb i sefyllfaoedd a phroblemau bob dydd

I'n helpu ni i wneud hynny, gadewch inni ystyried esiamplau Cristionogol o'r ganrif gyntaf

## **'DOEDD CRISTIONOGION Y GANRIF GYNTAF DDIM YN BOBL BERFFAITH, OND 'ROEDDEN' NHW'N DANGOS CARIAD (17 mun.)**

'Roedd amherffeithrwydd yn amlwg; hyd yn oed ymhlith yr apostolion (*it-1 128*)

Daeth eiddigedd, uchelgais, a diffyg gostyngeiddrwydd i'r golwg ar nifer o achlysuron (Mth 20:20-28; *gt 62, 98, 113, 115*)

Ond pam 'roedden' nhw'n gweithredu felly?

Oherwydd etifeddeg, mae bodau dynol yn tueddu i feddwl mwy ohonynt eu hunain nag y dylent (Rhuf 12:3)

Mae'r byd yn ceisio meithrin ymdeimlad uwchraddoldeb, ennill y blaen ar eraill

Magwyd y disgyblion yn y grefydd Iddewig, oedd yn pwysleisio safle neu reng yn eu holl ymwneud (*gt 62; w75 723 ¶4*)

'Ddylem ni ddim synnu fod tuedd weithiau ymhlith bodau dynol amherffaith i geisio safle a bri

Er fod Pedr yn ddyn amlwg, rhaid oedd ei gywiro nifer o weithiau

Cafodd ei geryddu gan Iesu oherwydd fod cymhelliant ei ffordd o feddwl yn anghywir (Mth 16:22, 23)

Ymfrostitodd yn ei ffydd a'i safle honedig gwell o flaen yr apostolion eraill, ac yna gwadu Iesu deirgwaith (Mth 26:33, 34, 69-75; *it-2 619*)

Gwrthododd ddilyn cyfarwyddiadau Duw a chafodd ei gywiro (Act 10:14-16)

Ildiodd i ofni dyn, gan ddangos ffafriaeth at Iddewon oedd yn newydd i'r ffydd—er ei fod yn gyfrifol am droi'r cenedlddynion cyntaf at Gristionogaeth—a'i gywiro gan Paul (Gal 2:11-14; *w90 11/1 31; w75 345*)

Parhaodd Iesu i wneud defnydd amlwg o Pedr (In 21:15-17)

'Roedd cariad dwfn Pedr a nodweddion da eraill yn gorbwyso'i ddiffygion (1Pedr 1:22; *w77 437-40*)

Er fod Paul yn esiampl wych o gariad ac ymroddiad, 'roedd ganddo ei ddiffygion

Bu i Paul a Barnabas, henuriaid amlwg, ymwahanu oherwydd i "gymaint cynnen" godi rhyngddynt ynglŷn â rhywbeth bach (Act 15:36-41; *w90 6/15 13-14; w75 344*)

Er gwaethaf y diffygion yn y gynulleidfa cariad a orchfygodd (Darllen 1 Pedr 4:8)

Yn yr holl achosion diffygion hyn, 'roedd cariad yn "dileu lliaws o bechodau," gan ddangos fod gan y disgyblion 'gariad at ei gilydd'

Dangosodd y Philipiaid gariad cywir at Paul er gwaethaf ei ddiffygion (Phil 4:15, 16; *it-2 631*)

Bu i wir nod cariad ddileu camgymeriadau rhai pobl amlwg, a ddylai, fe dybiem, fod wedi gwybod yn well

Sut byddai camgymeriadau'r apostolion fel y'u cofnodwyd nhw yn y Beibl wedi effeithio arnoch chi? 'Fyddech chi wedi cael eich tramgwyddo? Neu 'fyddech chi wedi maddau iddyn' nhw mewn cariad?

### **MAE CARIAD CRISTIONOGOL YN DILEU DIFFYGIION (17 mun.)**

Mae gwir Gristionogion yn efelychu eu Creawdwr yn ei gariad at ddynoliaeth

'Dydyn nhw ddim yn aros i gyd-Gristionogion fod yn berffaith cyn dangos cariad atyn' nhw (Rhuf 5:8; Eff 5:1, 2)  
Rhaid edrych yn gytbwys ar ein perthynas â'n gilydd

Oherwydd amherffeithrwydd etifeddol, mae tuedd ym mhawb i weithredu'n anghywir (Rhuf 5:12)

Oddi mewn inni mae tuedd i fod yn eiddigeddus, i wylltio, i ymffrostio, i fod yn anfaddeugar, ac yn y blaen (Iago 3:2)

Er fod yn rhaid i bawb ohonom weithio i oresgyn tueddiadau o'r fath, fe fydd tueddiadau pechadurus yn cael mynegiant ymhlith Cristionogion (Preg 7:21, 22; Rhuf 7:15-20; g89 7/22 19)

'Dyw disgwyl perffeithrwydd gan ein brodyr, neu gennym ein hunain, ddim yn realistig ac fe gawn ein siomi

Mae disgrifiad Paul o gariad yn dangos sut y medrwn ymwneud y naill â'r llall gan gydnabod ein diffygion ein gilydd (1Cor 13:4, 5; *it-2* 277-8; *w93* 10/15 17-22; *w92* 7/15 27-31; *w89* 10/15 18-19)

"Y mae cariad yn hirymarhous; y mae cariad yn gymwynasgar"

Mae e'n barod i oddef mympwyon a barn wahanol pobl eraill, nid yw'n chwyrn, ond yn garedig, yn barchus  
"Nid yw'n gwylltio"

Er ei bod yn ymddangos weithiau fod rhesymau digonol dros wylltio pan fo diffygion pobl eraill yn cael eu hamlygu, dyma gyfle i weithrdu cariad

"Nid yw'n cadw cyfrif o gam"

Bydd, fe fydd "cam," felly byddwch yn barod i ddangos cariad

Nid peth cariadus ydi dal dig nac adolygu fel mae rhywrai wedi pechu yn ein herbyn ni (*w78* 9/15 20)

Mae angerdd cariad yn helpu aelodau'r gynulleidfa i ddileu camgymeriadau a wna goruchwylwyr, sydd hefyd yn amherffaith

Mae Hebreaid 13:17 yn annog ufudd-dod i'r rhai sy'n gofalu amdanom ni, er eu bod nhw'n amherffaith (*w89* 9/15 23)

### **DILYNWCH FFORDD CARIAD ER GWAETHAF DIFFYGIION (3 mun.)**

'Dyw'r wir gynulleidfa ddim bellach yn cael ei 'nabod gan ddoniau'r ysbryd ond gan y cariad 'nad yw'n darfod byth' (1Cor 13:8; *it-2* 278; *w75* 2/1 95)

Heb esgusodi drwgweithredu, byddwch yn hael yn dangos cariad sy'n "dileu lliaws o bechodau"

A ninnau'n rhan o'r gynulleidfa wir Gristionogol, rhowch ystyriaeth i gyngor Pedr: "O flaen pob peth, cadwch eich cariad at eich gilydd yn llawn angerdd" (1Petr 4:8)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)